

# **Cyngor Cymuned Llanycil.**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mai 14eg 2013 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies, Geraint Jones, Jean Roberts, Gwynedd Jones, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Gwilym Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies ac Euros Puw.

## **Cyfarfod Blynyddol.**

### Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd.

Croesawyd Jean Roberts i'r gadair a diolchwyd i Arwel Davies am ei waith caled dros y 3 mlynedd ddiwethaf. Etholwyd Geraint Davies yn is-gadeirydd.

### Cyfrifon 2012-13.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2012-13 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd angen mynd a'r cyfrifon i Ddolgellau ar y 29/5/13 i gael ei archwilio.

### Asesiad Risg a Rheoliadau Mewnol.

Cytunwyd bod yr asesiad risg a'r system rheoliadau mewnol presennol yn gywir.

## **Cyfarfod Misol.**

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

### **Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

#### Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth gan Eisteddfod Talybont, Cylch Meithrin/Ti a Fi Maesywaen, Ysgol a Neuadd Y Parc, Ysgol Bro Tryweryn, CFFI Meirionnydd, Ambiwllans Awyr Cymru, Urdd Gobaith Cymru -Cylch Penllyn, Tŷ'r Eos, Sioe Ardal Maesywaen, Cantref, Pwyllgorau Apêl Leol Urdd Gobaith Cymru - Y Parc a Rhyduchaf, Maesywaen, Llidiardau a'r Arenig.

#### Ysgol Y Parc.

Cafwyd diweddariad gan y clerch o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cafwyd cais i ddewis un cynghorydd o du allan i ardal Y Parc i fynychu'r cyfarfod nesaf. Cytunodd Gwynedd Jones i fynychu'r cyfarfod a Rhys Richards yn eilydd iddo.

#### Blwch postio ym mhentref Parc.

Roedd y clerch wedi cysylltu â'r Post Brenhinol ac roedd y blwch wedi cael ei ddiogelu.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

#### Coed ar riw Parc.

Roedd yr Arolygwr wedi asesu'r safle ac roedd yn edrych yn debyg bod y coed wedi cael sylw yn barod.

#### Dwr yn llifo drosodd i'r ffordd ger yr hen loches bws a ger Ffridd Tan Nyrs, Parc.

Roedd yr Arolygwr wedi ymweld â'r safle ac wedi trefnu'r gwaith i lanhau'r gwteri.

#### Pont pentref Parc.

Cafwyd cadarnhad bod y difrod i'r bont wedi cael ei gyfeirio at Beiriannydd Strwythol y Cyngor a byddai unrhyw waith atgyweirio yn cael ei ystyried yn y flwyddyn ariannol 2013-14.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Partneriaeth Penllyn**

i) Copi o gofnodion y cyfarfod, 18/4/13.

ii) Gan fod angen i bob cyflogwr ddilyn y drefn newydd 'Real Time' i ymadrodd yn nol i'r CThEM roedd y Bartneriaeth wedi bod yn trafod gyda Mantell Gwynedd ynglŷn â gwneud y gwaith i'r Cynghorau. Adroddodd y clerc ei bod yn defnyddio'r system ar-lein yn barod ac nid oedd yn teimlo bod angen i'r Cyngor dalu i Fantell Gwynedd i weithredu'r drefn newydd. Gofynnwyd i'r clerc anfon yn nol at y Bartneriaeth i ddiolch iddynt am y cynnig ac i egluro penderfyniad y Cyngor.

### **b) Cyngor Gwynedd**

i) Derbyniwyd llythyr yn ein diweddarau ar y newidiadau i'r 'Gorchmynion Rheoli Cwn'.

ii) Derbyniwyd copi o'r dogfennau ymgynghori y 'Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn'.

### **c) Un Llais Cymru.**

i) Copi diweddaraf Y Llais.

ii) Copi o hysbyseb swydd y 'Swyddog Datblygu Gogledd Cymru'.

### **ch) Heddlu Gogledd Cymru**

i) Derbyniwyd gwybodaeth am eu hymgyrchon 'Gwisgo Gwregys', 'Sodium' a 'Focus'.

### **d) Amrywiol.**

i) Parc Cenedlaethol – Derbyniwyd llythyr yn gwahodd y Cyngor i ymgymryd mewn 'Prosiectau Bioamrywiaeth'.

ii) Cyngor Cymuned Llanystumdwy - Derbyniwyd e-bost yn gofyn i'r Cyngor wrthwynebu ceisiadau i ymestyn trwyddedau meysydd carafanau i 12 mis. Cytunwyd i ystyried ei sylwadau os bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

iii) Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Caerdydd - Derbyniwyd cais i'r Cyngor gwblhau eu 'Holiadur Arsyllfa Wledig Cymru'. Cytunodd y clerc i'w gwblhau ar ran y Cyngor.

iv) Cymdeithas yr Iaith – Derbyniwyd copi o'i 'Maniffesto Byw'.

v) Dwr Cymru - Derbyniwyd llythyr yn gofyn i'r Cyngor arddangos poster i hysbysu'r cyhoedd o'i bwriad i ymweld â'r ardal i geisio darganfod gorsafoddd pwmpio preifat.

vi) Dwr Cymru - Roedd y clerc wedi derbyn e-bost yn gwahodd y Cyngor i ddiwrnod agored y Gwaith Trin Dŵr newydd yn Llidiardau ar y 29/5/13. Cytunodd Rhys Richards a Gwynfryn Williams fynychu'r digwyddiad.

## **Ceisiadau Cynllunio.**

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/223C – Cais ol-weithredol i gadw sied storio coed. Blaen Cwm, Parc.

NP5/72/223D – Adeiladu adeilad amaethyddol i gadw da byw a storio peirianwaith. Blaen Cwm, Parc.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/225 – Creu mynediad newydd dros dro i gerbydau. Tir ger A4212, Arenig.

NP5/72/223C – Cais ol-weithredol i gadw sied storio coed. Blaen Cwm, Parc.

NP5/72/LB143A - Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol ac allanol i drosi eglwys yn Ganolfan Treftadaeth. Eglwys Beuno Sant, Llanycil.

## **Materion Ariannol.**

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £1,650

Derbyniwyd ad-daliad TAW o £10.00

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Un Llais Cymru (Tal aelodaeth)

Zurich (Yswiriant)

TGTHE (TWE) – 2 sic ar gyfer y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol.

## **Unrhyw Fater Arall**

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

Pont Tai Hirion, Arenig.

Gan fod y sment wedi cychwyn pydru roedd cerrig o'r bont yn disgyn i'r ffordd.

Coed di dod i lawr rhwng Beudy Rhyd yr Efail a Penbryncoch, Parc.

Roedd rhai o'r coed wedi disgyn i'r ffordd ac angen eu clirio.

Mynediad Ysgol Y Parc.

Yn dilyn gwaith atgyweirio gan Dwr Cymru roedd 'step' rhwng iard yr ysgol a'r ffordd ac roedd peryg y gallai rhywun faglu yno.

Gwifrau ffon rhwng croesffordd y Bragdy a Thŷ Capel Moelgarnedd, Y Parc.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â BT i'w cynghori bod angen torri canghennau'r coed gan eu bod yn pwyso'n drwm ar y gwifrau ffon.